**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Julian Walker
Prif Swyddog Masnachol a Chyfarwyddwr Rhanbarthol, Cymru
Associated British Ports (ABP)

20 Hydref 2025

Annwyl Julian,

**Dyfodol Dur yng Nghymru**

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd yn gwneud darn o waith parhaus ar Ddyfodol Dur yng Nghymru. Fel rhan o hynny, rydym wedi bod yn edrych ar y newid gan Tata i gynhyrchu dur drwy ddefnyddio ffwrnais arc drydan ym Mhort Talbot.

Fel rhan o'n gwaith, rydym wedi bod yn ystyried cyfleoedd economaidd yn y dyfodol ym Mhort Talbot a'r ardaloedd cyfagos, a'r rôl y gallai Tata, y gadwyn gyflenwi, a'r gweithlu lleol ei chwarae yn hynny o beth.

Pan wnaethom siarad â Tata am hyn, fe ddywedon nhw wrthym: “As we move forward, we will work with all people who are potentially interested in using parts of the site to work and deliver their own business. And, as far as the EAF is concerned, once we start making the steel, that steel is available for everyone to use in their respective applications.”

Yn sgil y datblygiadau yn y Gwaith Dur ac fel rhan o'n gwaith ar Ddyfodol Dur yng Nghymru, byddem yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau a ganlyn:

- Pa rôl ydych chi'n disgwyl i weithrediadau Tata ym Mhort Talbot ei chwarae mewn perthynas â'r Porthladd Rhydd Celtaidd?

- Pa gyfleoedd ydych chi'n eu rhagweld i ddefnyddio dur o Bort Talbot mewn perthynas â phrosiectau’r Porthladd Rhydd Celtaidd, ac mewn perthynas â datblygiadau ynni gwynt arnofiol ar y môr sydd ar ddod?
- Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Tata ynghylch y cyfleoedd posibl hyn?
- Yn eich barn chi, pa botensial sydd i'r Porthladd Rhydd Celtaidd gefnogi creu swyddi diogel gyda chyflogau da i'r rhai y mae colli swyddi yn Tata yn effeithio arnynt, a sut ydych chi'n bwriadu gwireddu'r cyfleoedd hyn?

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Porthladd Rhydd Celtaidd i ofyn y cwestiynau hyn, ac rwy'n hapus i gael ymateb unigol neu ar y cyd fel y gwelwch yn dda. Diolch ichi ymlaen llaw am eich amser a’ch cymorth gyda’r ymchwiliad hwn. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg